**GWEINIDOGION CYMRU**

**CYNLLUN A4232 FFORDD GYSWLLT DWYRAIN Y BAE**

**ASESIAD O'R EFFAITH AMGYLCHEDDOL HYSBYSIAD AM DDATGANIAD AMGYLCHEDDOL YN UNOL AG ADRAN 105B O DDEDDF PRIFFYRDD 1980 (FEL Y'I DIWYGIWYD)**

**ASESIAD O'R OBLYGIADAU AR GYFER SAFLEOEDD EWROPEAIDD HYSBYSIAD AM DDATGANIAD I LYWIO ASESIAD PRIODOL YN UNOL AG ADRAN 61 O REOLIADAU CADWRAETH CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU 2010**

Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu mynd ymlaen â'r prosiect uchod ar gyfer darparu ffordd ddeuol, ddwy lôn, 1km o hyd yn cysylltu cylchfan bresennol Queens Gate ar yr A4232 â chylchfan Ocean Way ym Mae Caerdydd. Penderfynodd Gweinidogion Cymru fod y prosiect hwn yn brosiect perthnasol sy'n ddarostyngedig i Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn unol â Rhan VA o Ddeddf Priffyrdd 1980 (fel y'i diwygiwyd) a Chyfarwyddeb 2014/52/EU y Cyngor Ewropeaidd (fel y'i diwygiwyd).

Mae'r Prosiect hefyd yn ddarostyngedig i Asesiad o'r Oblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd (AGSE) o dan Adran 61 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 ac Erthygl 6(3) o Gyfarwyddeb Cynefinoedd 92/43/EC.

Yn unol â'r penderfyniad uchod paratowyd Datganiad Amgylcheddol (DA) sy'n nodi'r materion amgylcheddol allweddol sy'n gysylltiedig â'r prosiect. Mae'r DA hefyd yn rhoi manylion am y mesurau lliniaru sydd i'w darparu er mwyn osgoi, lleihau neu wrthbwyso effeithiau anffafriol y prosiect. Ar yr un pryd, paratowyd Ddatganiad i Lywio Asesiad Priodol (DiLAP) o dan reoliad 48 o Reoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol &c.) 1994.

Cyhoeddwyd y DA, crynodeb annhechnegol o'r DA a'r DiLAP ar 23 Rhagfyr 2015, adneuwyd copïau ohonynt yn y mannau a restrir isod tan 3 Chwefror 2016 a gwahoddwyd sylwadau. Cafwyd ymatebion ac ystyriwyd yr ymatebion

hynny gan Weinidogion Cymru cyn cyrraedd eu penderfyniad i fynd ymlaen â'r gwelliant.

Gellir archwilio copïau o'r DA, y crynodeb annhechnegol, y DiLAP a Llythyr Penderfyniad Gweinidogion Cymru yn ystod oriau swyddfa / agor o 7 Fawrth 2016 tan 18 Ebrill 2016 neu o fewn 6 wythnos ar ôl dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn, pa un bynnag o'r cyfnodau ddaw i ben ddiwethaf, yn y mannau canlynol:

Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ;

Gweithrediadau y Ddinas, Cyngor Dinas Caerdydd, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW;

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan benderfyniad Gweinidogion Cymru i fynd ymlaen â'r gwelliant hwn, y gwnaed y DA ynglŷn ag ef, ac sy'n dymuno herio dilysrwydd y penderfyniad hwnnw ar y sail:

a) nad yw o fewn pwerau Deddf Priffyrdd 1980 neu
b) na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf honno neu reoliadau a wnaed odani,

o fewn 6 wythnos ar ôl dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn, wneud cais i'r Uchel Lys am atal dros dro neu ddiddymu'r penderfyniad i fynd ymlaen.

Gellir gweld copi o benderfyniad Gweinidogion Cymru yn: http://cymru.gov.uk (detholer 'Pynciau', 'Trafnidiaeth', 'Ffyrdd', 'Prosiectau Ffyrdd', 'Llythyrau Penderfynu a adroddiadau Arolygwyr").

**Gellir cael copi o'r hysbysiad hwn mewn print brasach gan Lywodraeth Cymru, Trafnidiaeth, Y Gangen Orchmynion, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

M D BURNELL
Y Gangen Orchmynion
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru
Ar ran Gweinidogion Cymru